Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Annwyl Bawb

E-FWLETIN 36 – 23 TACHWEDD 2009

Yn gyntaf, ar ran Clwb Clex, hoffwn ddiolch o galon i'r rheiny ohonoch a gefnogodd ac a gyfrannodd at fore coffi'r Clwb fore Sadwrn diwethaf. Llwyddwyd i godi bron £400; bydd yr arian hwn yn ddefnyddiol iawn iddynt dros y flwyddyn nesaf. Cofiwch os oes gennych ddiddordeb mewn ymwneud â'r Clwb mewn unrhyw fodd – naill ai trwy wirfoddoli ar nos Wener neu trwy ymuno â Phwyllgor y Clwb – rhowch wybod trwy e-bostio clwbclex@hotmail.co.uk.

Yn ail, tynnir eich sylw at y digwyddiad isod y mae Morlan wedi'i threfnu ac sy'n cael ei gynnal heno.

"POBL IFANC – EU CYFRANIAD I GYMDEITHAS"
7.00, nos Lun, 23 Tachwedd
Trafodaeth ar y pwnc uchod gydag Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr yr Urdd. Cadeirydd: Elin Haf Gruffydd-Jones. Cyfle i holi a thrafod materion sy'n ymwneud â sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i fod yn rhan o'r broses penderfynu ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw. Mynediad am ddim ond croesewir cyfraniadau i Gronfa Eisteddfod yr Urdd Ceredigion.

Yn olaf, ar ran Canolfan Morlan, hoffwn estyn gwahoddiad cynnes iawn i chi - cyfeillion a chefnogwyr y Morlan - i ddathliad Nadolig am 5.30, nos Iau, 10 Rhagfyr. Bydd yno pwnsh ffrwythau cynnes, mins peis a chanu carolau. Yn ystod y dathliad, caiff Prosiect Nadolig 2009 ei lawnsio; mae hwn wedi'i drefnu eleni gan Glwb Clex a bydd i'w weld y tu allan i'r Morlan hyd at y Nadolig. Mae'r Clwb wedi bod yn weithgar iawn yn ddiweddar; yn ogystal â threfnu'r Bore Coffi a'r prosiect Nadolig, fe gymeron nhw ran yng ngwasanaeth Nadolig Amnest Rhyngwladol yn ddiweddar ac ym mhrosiect *Operation Christmas Child*.

Nodir gweddill y digwyddiadau dros y bythefnos nesaf yma.

ARDDANGOSFA GELF
23 Tachwedd 2009 – 8 Ionawr 2010
Arddangosfa gelf dan ofal Cymdeithas Gelf Ceredigion yn cynnwys 70 o luniau amrywiol gan y grŵp hwn o artistiaid lleol.

FFORWM 50+ ABERYSTWYTH
2.00-4.00, Mercher, 25 Tachwedd
Cyfarfod misol i drafod materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

QUIDZ IN
9.30-11.30, boreau Iau
Cwrs 10-wythnos di-dâl sy'n rhoi cymorth ymarferol i rieni magu plant sy'n hyderus yn ariannol. Noddir y cwrs gan Cantref, Cymunedau'n Gyntaf a Credit Action Cymru, a bydd yn cael ei gynnal bob bore Iau nes 10 Rhagfyr. Manylion pellach: 0800-242-5844

BIWRO GWIRFODDOLI CAVO
10.00-4.00, dydd Iau, 26 Tachwedd
Sesiynau ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli.

SIX CHARACTERS IN SEARCH OF AN AUTHOR
7.30, 29 a 30 Tachwedd
Cynhyrchiad y Nomadic Players (un o gymdeithasau drama myfyrwyr y Brifysgol) o ddrama gan yr Eidalwr Luigi Pirandello. Cyfarwyddwr: Dylan Delaney. Tocynnau: £5 a £6. I archebu tocyn ewch i: www.thenomadicplayers.co.uk.

FFAIR NADOLIG PLAID CYMRU
Prynhawn Sadwrn, 5 Rhagfyr
Manylion pellach i ddilyn.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr